

Cyngor Cymuned Y Bontnewydd  
COFNODION CYFARFOD MISOL  
5 Chwefror 2014 7.00 yh Y Ganolfan, Y Bontnewydd

**PRESENNOL :**

Cynghorwyr: Dafydd Iwan, Geraint R. Jones, Gwyneth Thomas, Ifor Dylan Williams, Sioned Williams, Ed Huws, Chris Hughes, Ian Jones, Rhys Pugh  
Cadeirio: Erddyn Davies  
Huw Llwyd Rowlands, Clerc

**1. YMDDIHEURIADAU**

Cynghorydd Emyr Williams

**2. DATGAN BUDDIANT**

Datganodd y Cynghorydd Erddyn Davies a'r Cynghorydd Chris Hughes fuddiant yn eitem 5.3 gan eu bod yn gysylltiedig gyda'r Clwb Pêl Droed

**3. CADARNHAU COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF**

Cadarnhawyd. Cynnig: Dafydd Iwan

Eilio: Gwyneth Thomas

**4. MATERION YN CODI O'R COFNODION**

**4.1 Porth Eglwys Sant Baglan**

**Yr Eglwys a Llidiart y Fynwent**

Gan fod yr Eglwys yng Nghymru yn cydnabod mai nhw yw perchnogion llidiart yr Eglwys, ysgrifennodd y Clerc at adran eiddo yr Eglwys yng Nghymru i'w hatgoffa fod angen gwneud gwaith cynnal a chadw ar y llidiart, er mwyn sicrhau ei ddiogelwch. Mae'r Eglwys wedi ymateb a cydnabod hyn.

**Y Fynwent**

Awgrymodd yr Eglwys yng Nghymru wneud ymholiadau pellach gyda Llyfrgell Genedlaethol Cymru, gan fod ganddyn nhw ddogfennau yn dyddio o ddechrau'r ganrif a allai egluro'r berchnogaeth hanesyddol. Mae'r Clerc wedi cysylltu efo'r Llyfrgell Genedlaethol i holi os oes ganddynt gopi o drosglwyddiad 27 Hydref 1925 rhwng Comisiynwyr yr Eglwys yng Nghymru o Eglwys Sant Baglan i Gadeirydd a Goruchwylwyr Plwyf Llanfaglan.

**4.2 Cylchdro Glan Beuno**

Ysgrifennodd y Clerc at Lywodraeth Cymru, gan ddiolch am adroddiad yr Asiantaeth Priffyrdd, a chynnig rhai sylwadau pellach.

Mae Llywodraeth Cymru derbyn y sylwadau, ac mae'r Asiantaeth Priffyrdd ar hyn o bryd yn trafod y ffordd orau i droi'r ddwy lon wrth agosáu at y cylchdro i gyfeiriad Caernarfon yn un.

### **4.3 Arosfan Fysiau Llanfaglan**

Derbyniodd y Clerc ymateb gan un o rieni'r disgyblion sy'n dal y bws o Lanfaglan i Ysgol Syr Hugh Owen, yn mynegi gwrthwynebiad i symud lleoliad yr arosfan i i leoliad y tu allan i Eglwys Llanfaglan ar ochr Eglwys Llanfaglan o'r ffordd.

Wedi trafodaeth bellach ar y mater, fe benderfynwyd gofyn i'r Clerc ysgrifennu at Gyngor Gwynedd i ddweud fod y Cyngor yn credu mai gadael yr arosfan yn ei safle bresennol yw'r opsiwn gorau.

### **4.4 Gwersylla ger y Foryd**

Mae'r Clerc wedi ysgrifennu at Gyngor Gwynedd yn gofyn byddai'n bosibl gwneud is-ddeddfwriaeth yn rhwystro parcio tymor hir ar Y Foryd, ac yn enwedig ar y darn gwair ble bu'r cwynion pennaf dros yr Haf

Mae Cyngor Gwynedd wedi cadarnhau unwaith eto nad yw is-ddeddfwriaeth yn opsiwn addas.

Cytunwyd felly gydag argymhelliad Cyngor Gwynedd yn rhwystro parcio am gyfnod hir, gan ystryried os yw hyn yn gwella'r sefyllfa erbyn diwedd yr haf.

### **4.5 Parcio Lôn Groes**

Mae safbwynt Cyngor Gwynedd yn parhau'r un fath, sef eu bod wedi paratoi cynlluniau er mwyn cynorthwyo'r Cyngor Cymuned efo opsiynau posibl o ran ehangu'r llefydd parcio ond nad oes ganddynt unrhyw fwriad i wneud gwariant i gynnig llefydd parcio ychwanegol oddi ar Lôn Groes, ac felly mater i'r Cyngor Cymuned fyddai ystyried darpariaeth o'r fath.

Gan fod y Cyngor Cymuned wedi cyfrannu'n sylweddol at greu'r llefydd parcio presennol, ac y byddai gwaith o'r fath yn costio rhai miloedd o bunnoedd, cytunwyd nad oedd hyn yn opsiwn.

### **4.6 Cwrs cynllunio**

Atgoffodd y Clerc fod Cymorth Cynllunio Cymru yn fodlon darparu cwrs ar gynllunio byddai'n berthnasol i Gynghorau Cymuned am gost o £300.

Wedi trafodaeth bellach, penderfynwyd na fyddai cwrs o'r fath yn fuddiol, gan nad oes llawer o geisiadau cynllunio wedi bod y y blynddoedd diwethaf.

#### **4.8 Grant Presenoldeb ar y We**

Ymgeisiodd y Clerc am grant drwy Gist Gwynedd, er mwyn cael cyfraniad ar gyfer sefydlu gwefan, neu wella gwefan eraill, e.e. un Ysgol Bontnewydd.

Dealla'r Clerc fod y cais wedi bod yn llwyddiannus a bod siec ar y ffordd.

Bydd angen rhoi ystyriaeth ar sut i ddefnyddio'r grant a chydymffurfio efo'r gofynion cyfreithiol erbyn y cyfarfod nesaf.

#### **4.8 Rhes Libanus**

Ysgrifennodd y Clerc at Gyngor Gwynedd yn gofyn am osod arwydd yn enwi'r rhes tai yn Lôn Groes yn Nhau Libanus.

Holodd y Clerc Gyngor Gwynedd am osod yr enw, ond oherwydd mai fel yr adnabyddir y Rhes ar system Cyngor Gwynedd ac ar system y Swyddfa Bost.

Cytunwyd fod y Cyngor yn gofyn i'r Cyngor osod arwydd yn enwi'r rhes yn .Comas farn y trigolion am enw ar Res Libanus

Cytunwyd y byddai'r Clerc yn ysgrifennu at Gyngor Gwynedd ac yn gofyn iddyn nhw osod arwydd

#### **4.9 Baw cwn a thipio slei bach yn Lôn Groes**

Ysgrifennodd y Clerc at Gyngor Gwynedd yn cwyno am faw cwn yn llefydd parcio Lôn Groes, yn enwedig yn y maes parcio canol. Gofynnodd y Clerc hefyd i Gyngor Gwynedd osod bin baw cwn ac arwydd ychwanegol ger y llefydd parcio, a gofyn am i'r ardal gael patrôl amlach.

Mae'r Cyngor wedi bod yn cynnal patrolau yn yr ardal ac yn bwriadu gosod arwyddion a bin.

#### **5.0 Tipio slei bach Lôn Groes**

Ysgrifennodd y Clerc at Gyngor Gwynedd yn adrodd am y teganau niferus sydd wedi eu taflu nepell o'r adwy ger Bod Elen.

Mae'r Cyngor wedi bod yn cynnal; patrolau yn yr ardal a byddant yn monitro'r sefyllfa.

Ar hyn o bryd ni ystyrir unrhyw gamau pellach na gosod arwyddion, gan fod yr arwyddion yn rhy fawr.

Fodd bynnag, nid yw'r sbwriel wedi ei gasglu a bid y Clerc yn ysgrifennu eto at Gyngor Gwynedd i ofyn i hyn ddigwydd.

Y Clerc i gysylltu efo Cyngor Gwynedd i ofyn iddyn nhw waredu'r sbwriel a chadw llygad i sicrhau na fydd yn digwydd eto.

## **1. MATERION ARIANNOL**

### **5.1 Cyflog a chostau clerc Rhagfyr 2014**

£208.18 - £41.60 treth incwm = £166.58 + costau swyddfa £45.00

**Cyfanswm Gros** £253.18

**Cyfanswm Net** £211.58

**5.2** Costau postio £0.53

**5.3** Taliad Clwb Pêl Droed Bontnewydd cynnal a chadw, torri gwair £825.00

**5.4** Cwrs Diogelu Data a Rhyddid Gwybodaeth Un Llais Cymru a fynychwyd gan y Clerc 29 Ionawr 2015 £15.00

**5.5** Aelodaeth 2015/16 Un Llais Cymru £131.00

**5.6** Balans yn y Banc 31 Ionawr £5879.22

**5.7** Penderfynu ar y praesept

### **Praesept**

Trafodwyd dogfen a baratowyd gan y Clerc yn nodi sefyllfa ariannol y Cyngor.

Roedd y proffil gwariant yn dangos mai swm bychan dros ben fyddai gan gyngor ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, oherwydd i'r grant o £3,000 fu'n cael ei dalu gan Gyngor Gwynedd yn ychwanegol at y Praesept ddod i ben y llynedd.

Byddai hyn yn golygu gorfod torri'n sylweddol ar y rhoddion a'r gwariant cymunedol dros y flwyddyn nesaf.

Penderfynwyd cynyddu'r praesept £2,000m o £12,500 i £14,500

## **CYNLLUNIO a MATERION CYFREITHIOL ERAILL**

Cais Cynllunio:C15/0002/19/LL

Estyniad yng nghefn Minafon, Bontnewydd, LL54 7UN

Doedd dim gwrthwynebiad

## 7 GOHEBIAETH

- Ymgynghori ar gynnig i symud Swyddfa'r Post Bontnewydd i McColl's Mae Swyddfa'r Post yn bwriadu symud y ddarpariaeth bresennol, gyda chaniatâd y perchennog o'i safle presennol i siop Mcoll's.

Penderfynwyd gofyn i'r Clerc ysgrifennu at y Swyddfa Bost gan ddweud fod y Cyngor Cymuned yn cefnogi'r symud ac am gadw presenoldeb ym Montnewydd.

Bu trafodaeth ar y sefyllfa barcio a diogelwch ffordd gan gofio fod nifer o gerbydau yn parcio o flaen y siop i ddadlwytho a gofynnwyd i'r Clerc amlygu'r sefyllfa wrth ysgrifennu at y Swyddfa Bost.

- Ymgynghori ar Bapur Gwyn Lywodraeth Cymru, Diwygio Llywodraeth Leol.

Mae'r Papur Gwyn yma yn argymhell pwerau ychwanegol i gynghorau cymuned a bid y Clerc yn danfon gwybodaeth bellach i bawb fel ei bod yn bosibl cael trafodaeth yng nghyfarfod mis Mawrth.

- Fforwm Mynediad Lleol Arfon a Dwyfor yn chwilio am aelodau Derbyniwyd er gwybodaeth
- Cwrs safonau a buddiannau Cyngor Gwynedd

Gofynnwyd i'r Clerc ysgrifennu at Gyngor Gwynedd yn mynegi diddordeb a chefnogaeth i'r cwrs.

- Adroddiad Budd-ddeiliaid Betsi Cadwaladr Derbyniwyd er gwybodaeth
- Cynhadledd Bywyd Parc
- Derbyniwyd er gwybodaeth
- Uchafswm gwariant Adran 137 Deddf Llywodraeth Leol 1972
- Mae'r swm wedi cynyddu o £ i £
- Prosiect Pont Briwet
- Gobeithir y bid y bont yn agor fis Mehefin
- Grantiau i wella cyfleusterau chwarae yng Nghymru Derbyniwyd er gwybodaeth, a bydd y Clerc yn ysgrifennu at Gyngor Gwynedd i ofyn am fwy o wybodaeth.
- Gorymdaith Gŵyl Ddewi Tref Frenhinol Caernarfon Derbyniwyd er gwybodaeth

## 8. MATERION ERAILL

### **8.1 Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn - y Cynllun Adnau**

Bydd ymgynghoriad ar Gynllun Adnau cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn yn cael ei gynnal rhwng 16 Chwefror a 31 Mawrth 2015.

Bydd y cyfnod ymgynghori yn rhoi cyfle i'r cyngor cymuned gyflwyno sylwadau.

Bydd yr adran gynllunio yn cysylltu yn fuan er mwyn cadarnhau'r cyfnod ymgynghori a'r lleoliad.

### **8.2 Gorchymyn Gwahardd a Chyfyngu Aros a Mannau Parcio ar y Stryd (Ardal Arfon) 2015 – cyfyngiadau parcio ym Montnewydd**

Bu trafodaeth ar y mater yma yng nghyfarfod Awst 2014, ble y cefnogwyd gosod gwaharddiad ar barcio ar y corneli o'r ffordd ger Ysgol Bontnewydd. Cefnogwyd y gorchymyn.

## **8. MATERION ERAILL**

## **9. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF: 5 Mawrth 2015, am 7yh.**